# Gwelliannau Caerdydd Canolog

tfw.wales
trc.cymru


Caerdydd Canolog Cardiff Central



# Rydym yn trawsnewid gorsaf reilffordd brysuraf Cymru i greu lle mwy croesawgar, hygyrch a phleserus i bawb.

Mae Caerdydd Canolog yn gyfnewidfa allweddol ar y Rhwydwaith T, y rhwydwaith integredig o drenau, bysiau, llwybrau cerdded a beicio yr ydym yn ei adeiladu ledled Cymru. Bydd yn rhwydwaith sy'n ymarferol ac yn hawdd ei ddefnyddio. Gydag un amserlen i gynllunio'ch taith ac un tocyn i'ch mynd o A i B.

Bydd y gwelliannau'n helpu i leddfu gorlenwi, yn ei gwneud hi'n haws symud o gwmpas yr orsaf, yn gwella capasiti ar ddiwrnodau digwyddiadau mawr a digwyddiadau byd-eang ac yn darparu cyfleusterau gwell i gwsmeriaid a staff, gan barchu hanes a chymeriad yr adeilad yn ofalus.

Wedi'i gefnogi gan fuddsoddiad o hyd at £140 miliwn gan yr Adran Drafnidiaeth, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Llywodraeth Cymru, mae'r gwaith hwn yn rhan o raglen ehangach i wella sut mae pobl yn teithio yng nghanol Caerdydd. Ein nod cyffredin yw ei gwneud hi'n symlach teithio ar drên, bws, ar droed, mewn cadair olwyn neu ar feic, ac annog ffyrdd mwy cynaliadwy o deithio.

Disgwylir i'r gwaith adeiladu yng ngorsaf Caerdydd Canolog ddechrau haf 2026, gyda'r rhan fwyaf o'r gwaith wedi'i gwblhau erbyn 2028.

Os ydych chi'n byw neu'n gweithio gerllaw, neu'n teithio'n rheolaidd drwy'r orsaf, mae'r canllaw hwn yn esbonio sut allwch chi gael gwybod am y gwaith sydd ar y gweill a'r mathau o darfu y gallech chi eu profi.

Diolch i chi am eich amynedd wrth i ni wneud y gwaith hwn i uwchraddio gorsaf brysuraf Cymru.

# Diben Gwelliannau Caerdydd Canolog

Mae Caerdydd Canolog yn chwarae rhan bwysig i'r ddinas, y rhanbarth a Chymru gyfan. Wrth i fwy o bobl ddefnyddio'r orsaf bob blwyddyn, mae'n hanfodol ei bod yn parhau i fod yn ddiogel, yn hygyrch ac yn groesawgar i bawb.

Mae'r gwelliannau wedi'u cynllunio i leihau gorlenwi, gwella diogelwch a gwneud yr orsaf yn addas ar gyfer y dyfodol wrth i nifer y teithwyr barhau i dyfu. Bydd y gwelliannau'n ei gwneud hi'n haws i bobl symud drwy'r orsaf, yn darparu cyfleusterau gwell i deithwyr a staff ac yn gwella hygyrchedd yn sylweddol i gwsmeriaid â symudedd cyfyngedig, gan helpu i greu amgylchedd mwy croesawgar a chynhwysol i bawb.

Yn ogystal â gwella sut mae'r orsaf yn gweithio, mae'r prosiect hefyd yn parchu ac yn ategu cymeriad hanesyddol yr adeilad.

Mae'r uwchraddiadau'n rhan o raglen fuddsoddi ehangach cyhoeddus i drawsnewid trafnidiaeth yng nghanol Caerdydd. Ochr yn ochr â'n partneriaid, rydym yn gweithio i wella cysylltiadau rhwng rheilffyrdd, bysiau, llwybrau cerdded, olwynio a beicio. Mae gweithio gyda'n gilydd yn cefnogi adfywio lleol ac yn annog ffyrdd mwy cynaliadwy o deithio ar draws Caerdydd a'r rhanbarth ehangach.



# Yr hyn y byddwn yn ei gyflwyno

## Gallwch weld sut olwg fydd ar orsaf Caerdydd Canolog wedi'i huwchraddio drwy ymweld â'n tudalen:

**trc.cymru/prosiectau/gwelliannau-caerdydd-canolog**

## Mynedfa ddeheuol

Un uwchraddiad mawr yw creu adeilad mynedfa ddeheuol newydd sbon gyda chyntedd mwy, gatiau tocynnau gwell, cyfleoedd manwerthu newydd, cyfleusterau newydd i gwsmeriaid a chydweithwyr ynghyd â phwyntiau Cymorth i Deithwyr pwrpasol.

Mae'r ddelwedd yn dangos Cyfnod 1a o gynlluniau Cledrau Croesi Caerdydd, wedi'i lleoli ym maes parcio deheuol yr orsaf, sy'n cysylltu Bae Caerdydd a Chaerdydd Canolog ar y rheilffordd.

## Tanlwybrau

Bydd tanlwybrau'r gorllewin a'r dwyrain yn cael eu huwchraddio i'w gwneud yn fwy disglair, yn fwy diogel ac yn fwy croesawgar. Mae'r gwelliannau'n cynnwys goleuadau gwell a sgriniau gwybodaeth newydd, modern.

Bydd nodweddion treftadaeth gwreiddiol tanlwybr y gorllewin, gan gynnwys y teils, yn cael eu cadw'n ofalus i gynnal ei gymeriad hanesyddol.

## Platfformau

Byddwch yn sylwi ar welliannau sylweddol ar draws y platfformau, gan gynnwys cyfleusterau aros gwell, siopau gwell a chanopïau wedi'u hadnewyddu er mwyn diogelu teithwyr yn well rhag y tywydd.

## Mynedfa ogleddol

Mae'r fynedfa ogleddol yn canolbwyntio ar wella llif a diogelwch gyda llinellau gatiau gwell i leihau ciwio a gatiau diogelwch wedi'u huwchraddio.

## Platfform 0

Bydd Platfform 0 yn cael ei ymestyn i gefnogi gwasanaethau trên yn y dyfodol, a bydd ardal aros newydd sbon i deithwyr yn cael ei hadeiladu ochr yn ochr ag ef. Bydd gwelliannau hefyd yn cael eu gwneud i'r lifft a'r grisiau.

# Manteision i deithwyr, trigolion a busnesau

**Mae prosiect gwelliannau Caerdydd Canolog wedi'i gynllunio i ddarparu manteision parhaol i bawb sy'n defnyddio'r orsaf neu'n byw ac yn gweithio gerllaw.**

Rydym yn disgwyl i orsaf Caerdydd Canolog aros ar agor ac i barhau i fod yn weithredol drwy gydol y cyfnod gwaith, a dylai gwasanaethau trên barhau i redeg fel arfer. Rydym yn argymell bod teithwyr yn gwirio cyn iddynt deithio drwy fynd i: trc.cymru/statws-gwasanaeth:
**trc.cymru/statws-gwasanaeth**

## I deithwyr

bydd y gwelliannau'n lleihau gorlenwi ac yn creu mwy o le yn enwedig ar adegau prysurach ac ar ddiwrnodau digwyddiadau, gan ei gwneud hi'n haws symud yn ddiogel drwy'r orsaf.

Bydd cyfleusterau wedi'u huwchraddio, llif cerddwyr gwell, cyfleusterau parcio beiciau gwell ac amgylchedd teithwyr gwell yn creu profiad mwy cyfforddus a hygyrch i bawb.

Bydd y gwelliannau hyn yn cefnogi cwsmeriaid sydd ag anawsterau symud, gan helpu pawb i deithio yn hyderus ac yn annibynnol.

Rydym yn dylunio'r prosiect ochr yn ochr â'n Panel Hygyrchedd sy'n tywys ein dull o ymdrin â hygyrchedd mewn gorsafoedd ac ar drenau. Mae eu harbenigedd yn llunio sut rydym yn cyflawni gwelliannau ar draws y rhwydwaith.

## I drigolion

bydd gorsaf fodern, sydd â chysylltiadau da, yn annog mwy ohonom ni i ddewis trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded, olwynio a beicio. Mae hyn yn golygu llai o deithiau car, a all helpu i leihau traffig ar ffyrdd lleol a chefnogi gwell ansawdd aer yng nghanol y ddinas.

Bydd creu canolfan drafnidiaeth lanach, mwy diogel a mwy hygyrch yn cyfrannu at amgylchedd iachach i'r rhai sy'n byw ac yn gweithio o amgylch yr orsaf


## I fusnesau

bydd y gwelliannau'n darparu cyfnewidfa drafnidiaeth gryfach a mwy deniadol yng nghanol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Bydd mwy o ymwelwyr, cysylltedd gwell a chyfleoedd manwerthu a masnachol newydd yn yr orsaf yn helpu i gefnogi busnesau lleol, denu buddsoddiad a gwasanaethu anghenion cwsmeriaid, gweithwyr ac ymwelwyr yn well.


Canolog Cardiff Central

# Gweithio gyda busnesau

## Drwy gydol y gwaith gwella, byddwn yn cadw Caerdydd Canolog ar agor ac yn weithredol..




Drwy gydol y gwaith gwella, byddwn yn cadw Caerdydd Canolog ar agor ac yn weithredol. Disgwylir i wasanaethau trên barhau i redeg, ond rydym bob amser yn argymell bod teithwyr yn gwirio'r diweddariadau teithio diweddaraf drwy fynd i **trc.cymru/statws-gwasanaeth cyn teithio**.

Rydym yn deall pa mor bwysig yw cyfathrebu clir i fusnesau sydd wedi'u lleoli yn yr orsaf a'r cyffiniau. Er mwyn eich helpu i gael y wybodaeth ddiweddaraf, rydym wedi sefydlu cylchgrawn busnes pwrpasol ar gyfer y prosiect. Trwy'r rhwydwaith hwn, rydym yn rhannu diweddariadau rheolaidd, rhybudd ymlaen llaw o unrhyw newidiadau a gwybodaeth am sut y gallai'r gwaith effeithio ar yr ardal gyfagos.

Os hoffech gael eich ychwanegu at y rhestr ddosbarthu neu drafod rhyw fath o ymgysylltu pwrpasol ar gyfer eich gweithwyr, cysylltwch â ni drwy anfon e-bost at ymgysylltu@trc.cymru.

Rydym wedi ymrwymo i weithio'n agos gyda busnesau lleol drwy gydol y prosiect i wneud yn siŵr bod gennych y wybodaeth sydd ei hangen arnoch, pryd bynnag y bydd ei hangen arnoch.

# Diweddaru trigolion a chymunedau lleol

## Wrth i drafnidiaeth yng Nghaerdydd gael ei gwella'n sylweddol, rydym wedi ymrwymo i fod yn gymdogion da i'n cymunedau a chefnogi ardaloedd lleol i ffynnu.

Er mwyn lleihau'r tarfu, bydd y gwaith yn cael ei rannu'n ofalus fesul cam a, lle bynnag y bo modd, bydd yn cael ei wneud pan fydd yr orsaf ar gau, gan gynnwys dros nos. Byddwn bob amser yn gwneud ein gorau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am unrhyw waith sydd wedi'i drefnu, fodd bynnag, efallai na fyddwn bob amser yn gallu ysgrifennu atoch bob tro.

Gallwch gael y wybodaeth ddiweddaraf drwy ymweld â **trc.cymru/prosiectau/gwelliannau-caerdydd-canolog** ymuno â ni mewn sesiwn galw heibio gyhoeddus drwy ymweld â **trc.cymru/prosiectau/ymgysylltu-ar-gymuned-a-rhanddeiliaid** neu drwy ddilyn ein tudalen Facebook Cymunedau – **facebook.com/tfwcommunities**

Ar gyfer adeiladau sydd â chylchlythyrau neu fyrddau hysbysiadau i breswylwyr, byddwn hefyd yn gweithio gyda thimau rheoli eiddo i rannu diweddariadau allweddol yn uniongyrchol â'r rhai sy'n byw agosaf at yr orsaf.

Byddwn yn gweithio gyda chymunedau ac ysgolion lleol i ddod â manteision ehangach i'r ardal. Mae hyn yn cynnwys:

- Ysbrydoli bobl ifanc ddatblygu sgiliau a phrofiadau mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM)
- Creu partneriaeth leol wedi'i llunio gennych chi
- Helpu pobl i ddysgu mwy am yrfaoedd yn y diwydiant rheilffyrdd a sut i gael mynediad at gyfleoedd cyflogaeth
- Darparu addysg diogelwch rheilffyrdd i ysgolion a grwpiau cymunedol
- Cefnogi a hyrwyddo teithio llesol a helpu i gael gwared ar rwystrau i gerdded, olwynio a beicio

Gwrando ar eich adborth drwy sianeli hygyrch a dwyieithog ac ymateb yn agored i bryderon


Byddwn yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda rhanddeiliaid a grwpiau cymunedol i rannu diweddariadau, clywed eich barn a gweithio gyda'n gilydd wrth i ni symud y prosiect ymlaen.

# Gwaith a newidiadau y gallwch eu disgwyl

Wrth i ni wneud y gwaith hwn, bydd rhywfaint o darfu tymor byr a gwaith pheirianneg yn ystod y nos yng ngorsaf Caerdydd Canolog a'r cyffiniau. Rydym yn gwybod y gall hyn fod yn anghyfleus, felly rydym am fod yn agored ac yn dryloyw ynglŷn â'r math o weithgareddau sy'n digwydd a sut y gallai hyn effeithio arnoch chi.

→





## Gosod seilbyst

Gosod seilbyst yw'r broses adeiladu a ddefnyddir i osod y sylfeini ar gyfer offer penodol. Mae'n cynnwys gyrru'r seilbostyn/sylfaen sy'n cynnal yr offer yn ddwfn yn y ddaear.

Gall gosod seilbyst fod yn waith swnllyd gan ei fod yn cynnwys peiriannau trwm ond byddwn yn gwneud ein gorau i leihau'r sŵn a'r tarfu ar bobl sy'n byw ac yn gweithio gerllaw.

Yn dibynnu ar gyflwr y ddaear, mae seilbyst cyffredin yn cymryd rhwng 20 a 60 munud i'w gosod ac yn aml caiff y gwaith ei gwblhau yn ystod un cyfnod yn unig, felly ni ddylai'r sŵn byth bara'n rhy hir.

Dysgwch fwy am osod seilbyst yma **trc.cymru/prosiectau/metro/adeiladu-ein-metro/gosod-seilbyst**

## Adleoli'r swyddfa docynnau dros dro

Er mwyn caniatáu i'r gwaith adeiladu fynd rhagddo'n ddiogel, bydd y swyddfa docynnau'n cael ei hadleoli dros dro.

Byddwn yn gosod arwyddion clir ar gyfer y lleoliad newydd er mwyn helpu chi i ddod o hyd iddo'n hawdd, a bydd staff wrth law i gefnogi unrhyw un sydd angen cymorth.

## Newidiadau dros dro i fynediad a llwybrau cerdded

Efallai y bydd angen i rai unedau manwerthu y tu mewn i'r orsaf symud neu weithredu mewn ffordd wahanol tra bod y gwaith yn digwydd.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda manwerthwyr i leihau'r tarfu gymaint â phosib a sicrhau y gallwch barhau i gael mynediad at wasanaethau hanfodol.

Er mwyn eich helpu i lywio cynlluniau gorsafoedd dros dro, gall ein tîm Cymorth i Deithwyr ddarparu mapiau printiedig a chyffyrddol. Siaradwch ag aelod o'r tîm.

## Newidiadau dros dro i fynediad i'r lifft a'r grisiau

O bryd i'w gilydd, efallai y bydd angen cau rhai lifftiau neu risiau dros dro tra bod gwaith uwchraddio yn cael ei wneud.

Darperir llwybrau amgen bob amser, gydag arwyddion clir a staff ar gael i helpu rheini sydd ag anawsterau symud.

## Gwasanaethau bws yn lle trên

Pan fydd angen rhoi gwasanaethau bws yn lle trên ar waith, byddwn yn sicrhau bod arwyddion clir a chydweithwyr ar gael i helpu i gael mynediad at y gwasanaethau hyn. Bydd gwybodaeth am y gwasanaethau bws yn lle trên ar gael yn yr orsaf ac ar ap TrC.

## Diwrnodau digwyddiadau mawr

Rydym wedi ymrwymo i gadw'r orsaf yn weithredol yn ystod diwrnodau digwyddiadau a byddwn yn rhannu cyfathrebiadau penodol â chwsmeriaid cyn unrhyw ddigwyddiadau mawr ar ap TrC, ar ein gwefan a'n cyfryngau cymdeithasol ac ar bosteri yn ein gorsafoedd.



# Treftadaeth a chynaliadwyedd

## Mae ein cynlluniau ar gyfer Caerdydd Canolog wedi'u datblygu i gefnogi dyfodol glanach, gwyrddach a mwy cynaliadwy i'r ddinas.

→

Mae ein cynlluniau ar gyfer Caerdydd Canolog wedi'u datblygu i gefnogi dyfodol glanach, gwyrddach a mwy cynaliadwy i'r ddinas.

Mae'r prosiect yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), gan sicrhau bod y gwaith a wnawn yn cefnogi cymunedau iachach a mwy cydnerth am flynyddoedd i ddod. Bydd y gwelliannau arfaethedig yn archwilio cyfleoedd i leihau allyriadau carbon asedau gorsafoedd a gwella cydnerthedd Caerdydd Canolog yn wynebu newid hinsawdd.

Mae diogelu hanes unigryw Caerdydd Canolog yn flaenoriaeth i ni. Bydd y prosiect yn gwella golwg a theimlad yr orsaf i wella amgylchedd y teithwyr wrth ategu hanes a threftadaeth yr adeilad ei hun. Byddwn yn cadw, gwarchod a diogelu treftadaeth yr orsaf gan sicrhau ein bod yn anrhydeddu gwaith ailadeiladu ac adnewyddu'r gorffennol. Bydd yr holl waith yn cyd-fynd â rheoliadau'r amgylchedd hanesyddol ac egwyddorion cadwraeth Cadw. Bydd y prosiect hefyd yn sicrhau etifeddiaeth barhaus yr orsaf i genedlaethau'r dyfodol.

Gallwch ddysgu mwy am hanes yr orsaf drwy ymweld â **trc.cymru/hanes-gorsaf-caerdydd-canolog**

# Cwestiynau Cyffredinol

## A fydd mynediad parcio i'm gweithle neu eiddo preswyl yn gyfyngedig yn ystod y gwaith?

Nid oes unrhyw gynlluniau i gyfyngu ar unrhyw anghenion mynediad i'r briffordd na pharcio yn ystod y gwaith.

## A allaf barhau i barcio yn yr orsaf?

Gallwch, bydd parcio yn parhau i fod ar gael. Mae maes parcio aml-lawr newydd Cei Canol Caerdydd wedi agor ar ochr ddeheuol yr orsaf, sy'n cael ei reoli gan Network Rail ac yn cael ei weithredu gan APCOA.

Noder, bydd y llwybr rhwng y maes parcio aml-lawr a mynedfa ddeheuol yr orsaf yn hirach o'i gymharu â'r llwybr cerddwyr presennol. Gadewch ddigon o amser i deithio i'r maes parcio aml-lawr a pharcio ynddo, a chofiwch yr amser i fynd o'r maes parcio aml-lawr i'r orsaf.

Caniateir 20 munud i ollwng a chasglu am ddim ym mhob bae parcio yn y maes parcio aml-lawr (ar wahân i'r mannau ar y llawr gwaelod, sydd ar gyfer parcio cerbydau trydan a pharcio hygyrch i gerbydau trydan yn unig).

Os oes gennych symudedd cyfyngedig ac wedi trefnu cymorth i deithwyr yn yr orsaf, defnyddiwch y maes parcio aml-lawr ar gyfer parcio hygyrch i ollwng/casglu. Siaradwch â chydweithiwr TrC wrth gyrraedd yr orsaf neu ffonio **03330 050 501**.

Pan fydd y gwaith adeiladu'n dechrau, byddwn yn rhannu diweddariadau rheolaidd ar newidiadau o ran parcio yn ein gorsafoedd pan fydd y gwaith adeiladu'n dechrau yma - **trc.cymru/prosiectau/gwelliannau-caerdydd-canolog/cwestiynau-cyffredin**

## Pwy sy'n gyfrifol am adeiladu'r gwaith?

Rydym wedi penodi BAM Construction Ltd yn brif gontractwr y prosiect. Mae gan BAM brofiad blaenorol yng ngorsaf Caerdydd Canolog, ar ôl cyflawni'r gwaith uwchraddio blaenorol i'r orsaf yn 2011.

Er mwyn eich helpu i gael y wybodaeth ddiweddaraf, bydd bwrdd hysbysu cymunedol pwrpasol yn cael ei osod ar ochr ddeheuol yr orsaf gyda diweddariadau rheolaidd a gwybodaeth allweddol.

## Ydych chi'n gwneud unrhyw waith arall yn yr ardal?

Ydyn. Mae gwelliannau Caerdydd Canolog yn rhan o raglen ehangach i wella teithio yng nghanol Caerdydd. Rydym yn gweithio'n agos gyda sefydliadau partner (Cynghrair Canolog) i greu rhwydwaith trafnidiaeth fwy cysylltiedig ag integredig.

Ochr yn ochr â'r gwelliannau i'r orsaf, mae prosiectau eraill yn yr ardal yn cynnwys gwelliannau i strydoedd a mannau cyhoeddus, Cyfnewidfa Fysiau Caerdydd a agorodd yn 2024, seilwaith beicio gwell a pharcio mwy cydlynol a darpariaeth cerbydau trydan yn y maes parcio aml-lawr. Mae'r gwaith ar yr orsaf hefyd yn cyd-fynd â datblygiadau mawr fel Cam 1a Cledrau Croesi Caerdydd, gan gyflwyno tramffordd newydd rhwng Caerdydd Canolog a Bae Caerdydd, a chynlluniau Network Rail ar gyfer ailddatblygu'r ardal o amgylch yr orsaf, gan gynnwys cartrefi newydd a lle masnachol. Gyda'i gilydd, mae'r prosiectau hyn yn cynrychioli buddsoddiad sylweddol yn nyfodol Caerdydd a byddant yn ei gwneud hi'n haws teithio'n gynaliadwy i mewn ac o amgylch canol y ddinas.

## Ble alla i ddod o hyd i fwy o Gwestiynau Cyffredin?

Gallwch weld rhestr lawn o Gwestiynau Cyffredin wrth ymweld â:
**trc.cymru/prosiectau/gwelliannau-caerdydd-canolog/cwestiynau-cyffredin**



# Gwybodaeth ynghylch cysylltu

**Llinell ffôn 24/7: 033 33 211 202**

**WhatsApp: 07790 952507**
(07:00-20:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener, 08:00-20:00 ar ddydd Sadwrn, a 11:00-20:00 ar ddydd Sul).


**Ar-lein:** trc.cymru/cymorth-a-chysylltu/rheilffordd/cysylltu-a-ni

**Instagram:** transport_wales

**Facebook:** facebook.com/tfw-communities

**Sesiynau galw heibio cyhoeddus:**
trc.cymru/prosiectau/ymgysylltu-ar-gymuned-a-rhanddeiliaid

**Mae rhagor o wybodaeth am welliannau Caerdydd Canolog ar gael drwy:**
trc.cymru/prosiectau/gwelliannau-caerdydd-canolog



Os gwelwch unrhyw beth amheus, rhowch wybod amdano i Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Os gwelwch unrhyw weithgarwch amheus ar neu ger y rheilffordd, rhowch wybod am hyn i Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Ffoniwch 0800 40 50 40 neu anfonwch neges destun at 61016 ar gyfer ymholiadau nad ydynt yn rhai brys. Mewn argyfwng, ffoniwch 999.